# CYNGOR TREF RHUTHUN
# RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk

Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

*Clerc y Dref / Town Clerk: Sandra Williams*

Eich Cyf / Your Ref: Ein Cyf / Our Ref: Dyddiad / Date: 16 Ebrill 2019

At Faer y Dref a Chynghorwyr
**Cyngor Tref Rhuthun**

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun NOS LUN, 23 EBRILL 2019** am **7:00p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yn y cyfarfod yn yr agenda isod.

Yn gywir

*Sandra Williams*

Sandra Williams, **Clerc y Dref**

## AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **DATGAN BUDDIANNAU**
   Datgan unrhyw fudd personol neu ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.

3. **CYFLWYNIAD YNGHYLCH RHUTHUN DI-BLASTIG**
   Derbyn cyflwyniad gan gynrychiolwyr grŵp Rhuthun Di-blastig.

4. **CYFLWYNIADAU GAN CYNNIG A MENTER IAITH SIR DDINBYCH**
   Derbyn cyflwyniadau cryno gan gynrychiolwyr Cynni a Menter Iaith Sir Ddinbych, yn dilyn ceisiadau am gymorth ariannol.

5. **ADRODDIAD Y MAER**

6. **ADRODDIADAU'R AELODAU**

7. **ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN**

8. **COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL**
   Derbyn a chadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2019 yn gywir.

9. **MATERION YN CODI**

10. **COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**
    Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2019

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg / Correspondence welcomed in Welsh and English

www.cyngortrefrhuthun.gov.uk / www.ruthintowncouncil.gov.uk

**11. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2019.

**12. DINESYDD DA / PERSON IFANC / GRŴP CYMUNEDOL Y FLWYDDYN 2019**
Derbyn nodiadau cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da a chadarnhau'r argymhellion ynghylch enillwyr y gwobrau yn 2019.

**13. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL**
Ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan y mudiadau a ganlyn:
1. Cymdeithas Sioe Rhuthun - £500.00
2. Clwb Bowls Gorphwysfa - £500.00
3. Cymdeithas Efeillio Rhuthun a'r Cylch - £500.00

**14. FFORWM CYFATHREBU RHUTHUN**
Ystyried sefydlu Fforwm Cyfathrebu ar gyfer y grwpiau a'r cymdeithasau yn Rhuthun i rannu gwybodaeth.

**15. DIWEDDARIAD AM YR HEN LYS**
Derbyn diweddariad ynghylch yr Hen Lys, yn dilyn cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys.

**16. DIWEDDARIAD DYFODOL RHUTHUN – SGWÂR SANT PEDR**
Derbyn diweddariad ynghylch y cynigion ar gyfer Sgwâr Sant Pedr, yn dilyn cyfarfod gweithgor Sgwâr Sant Pedr ac ystyried cais i gyfrannu tuag at arolwg topograffigol manwl gywir o ran ardaloedd Sgwâr Sant Pedr, Stryd y Ffynnon a Stryd y Farchnad.

**17. WYTHNOS DYFODOL RHUTHUN 2019**
Derbyn diweddariad ynghylch digwyddiadau a threfniadau Wythnos Dyfodol Rhuthun.

**18. COFRESTRIAD DIOGELU DATA**
Derbyn hysbysiad am y gofyniad i adnewyddu cofrestriad diogelu data Cyngor Tref Rhuthun ar gost o £40.00.

**19. CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2019**
Derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019.

**20. DATGANIAD ARIANNOL**
Derbyn a chymeradwyo datganiad ariannol y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2019.

**21. HYSBYSIAD YNGHYLCH YR ARCHWILIAD ALLANOL**
Derbyn hysbysiad gan BDO mai'r trefniadau archwiliad allanol ar gyfer 2018/19 yw bod yr hysbysiad i'w arddangos dim hwyrach na 16 Mehefin tan o leiaf 1 Gorffennaf 2019 ar hysbysfyrddau ac ar wefan y cyngor. Gofynnir i'r dogfennau i'w harchwilio gael eu cyflwyno erbyn dyddiad yr archwiliad, sef 1 Gorffennaf 2019.

**22. CYFRIFON I'W TALU**
Cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 100130 | Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru | 2 ginio yn dilyn y cyfarfod chwarterol, 26.04.19 | £32.00 |
| 100131 | Dŵr Cymru Welsh Water | Gwasanaethau yn yr Hen Lys, 20.02.19 – 20.03.19 | £42.37 |
| 100132 | Sandra Williams | Cyflog dyledus a chostau teithio | £31.90 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 100133 | Gwasanaethau Coed Cymru | Tocio'r Coed ar Sgwâr Sant Pedr | * | £390.00 |
| D.U. | BT Business | Gwasanaethau ffôn a band eang | * | £189.24 |
| 100134 | The Play Inspection Company | Adroddiadau archwiliad blynyddol maes chwarae'r Caeau Chwarae Coffa a pharc sglefrfyrddio Cae Ddôl | * | £156.00 |
| 100135 | Scottish Power | Trydan ar gyfer goleuadau'r coed Nadolig 2017-18 | | £87.07 |
| 100136 | Scottish Power | Trydan ar gyfer goleuadau'r coed Nadolig 2018-19 | | £86.31 |
| 100137 | Blachere Illumination UK Ltd | Llogi'r goleuadau Nadolig – trydedd flwyddyn cytundeb llogi tair blynedd | * | £3,789.25 |
| 100138 | Canda Copying Ltd | Rhentu'r llungopïwr a chopïau isafswm | * | £41.90 |
| 100139 | Canda Copying Ltd | Copïau du a gwyn ychwanegol | * | £19.94 |
| 100140 | Canda Copying Ltd | Copïau lliw ychwanegol | * | £43.20 |
| 100141 | Llanfwrog CIC | Torri glaswellt – Ebrill 2019 | | £352.26 |
| 100142 | Marian Rees | Cyfieithu ar y pryd – Ebrill | * | £180.00 |
| 100143 | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi | Treth incwm ac Yswiriant Gwladol | | £354.12 |
| 100144 | Hill & Roberts | Gwasanaethau cyflogres a chyfrifyddu – ffi misol | * | £84.00 |
| 100145 | Total Gas & Power | Bil nwy yr Hen Lys 19.01.19 – 28.02.19 | | £49.51 |
| 100146 | Total Gas & Power | Bil nwy yr Hen Lys 01.03.19 – 31.03.19 | | £37.43 |

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy o £750.58)

**23. DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

Cadarnhau mai dyddiad cyfarfodydd nesaf y Cyngor Tref fydd – Cyfarfod Blynyddol nos Lun, 13 Mai a chyfarfod cyffredin nos Lun, 20 Mai 2019, y ddau am 7.00pm.